Caru Gwenyn
Bee Friendly

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Astudiaethau achos

# Ysgol Gynradd y Garth, Maesteg

Mae Ysgol Gynradd y Garth, Maesteg, wedi datblygu prosiect o'r enw ‘Blas ar Fêl’. Bellach, mae dau gwch gwenyn yn yr ysgol a chant eu rheoli gan ddau aelod o staff sydd wedi hyfforddi fel gwenynwyr.

Mae’r cychod yn gymorth i’r plant ddeall pwysigrwydd gwenyn, a pham ein bod ni’n ddibynnol arnynt i beillio planhigion a chnydau.

Roedd edmygedd y plant o wenyn yn sail i’w syniad busnes 'Crysau-T Bee-Spoke '.

Dylunwyd crysau-t â thema gwenyn i hyrwyddo cadwraeth gwenyn.

Defnyddiwyd yr arian a godasant i roi sicrwydd i gwch gwenyn yr ysgol. Gwobrwywyd eu hymdrechion pan enillodd yr ysgol y gystadleuaeth Menter Genedlaethol.

Bu’r grwpiau blwyddyn gwahanol yn canolbwyntio ar agweddau penodol, a rhannwyd yr hyn a ddysgwyd gyda gweddill yr ysgol yn ystod gwasanaeth arbennig.




Bu Blwyddyn Tri yn gweithio gyda dau ymarferwr creadigol (dawnsiwr ac actores) er mwyn coreograffu dwy ddawns.

Perfformiwyd dawns siglo ar gyfer y rhieni, i ddangos sut mae gwenyn yn cyfathrebu, yn ogystal â dawns i ddangos ein heffaith negyddol ni fel pobl ar boblogaethau gwenyn. Hefyd, defnyddiwyd y sgrin werdd i greu hysbysebion i werthu mêl lleol.

Dysgodd Blwyddyn Pedwar am y wenynen ddu Gymreig. Defnyddiwyd arolwg ar-lein i weld pa mor wybodus oedd eu cyd-ddisgyblion am wenyn.

Yna, crëwyd graffiau i ddehongli ac i arddangos y canlyniadau. Cafwyd hwyl hefyd wrth wneud bisgedi gwenyn.

Caru Gwenyn
Bee Friendly

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bu Blwyddyn Pump yn astudio menter cadw gwenyn gydweithredol a sefydlwyd gan ffermwyr yn Chile.

Bu'r disgyblion hefyd yn ymchwilio mêl masnach deg, gan benderfynu ei bod yn bwysig prynu mêl masnach deg gan ei fod yn cefnogi gwenynwyr ledled y byd.

Dysgon nhw hefyd fod gwenyn yn gwneud mêl trwy gasglu neithdar o blanhigion, ac yna'n anweddu dŵr ohono yn y cwch er mwyn creu mêl.

Bu Blwyddyn Chwech yn astudio'r rhai sy'n hel mêl, gan roi cyflwyniad ar y testun.



Trafodwyd moeseg hel mêl mewn amgylchiadau peryglus, pan fo bywydau pobl mewn perygl a phan ddefnyddir dulliau casglu a allai arwain at farwolaeth y gwenyn.

Bu'r disgyblion yn gweithio gyda chwmni adeiladu i greu 'gwestai' gwych ar gyfer gwenyn a thrychfilod ar dir eu hysgol.

Cafwyd darlith gan y 'Friends of Monze', elusen ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r 'Friends of Monze' yn gweithio gyda chymuned yn Monze, Zambia, i adeiladu ysgolion a gosod cychod gwenyn.

Ymwelodd Dr James (Prifysgol Caerdydd) â'r ysgol i egluro'r ymchwil y mae'r Brifysgol yn ei wneud ar ddefnydd posibl o fêl Cymreig fel gwrthfiotig.

Cafodd yr ysgol gyfan foddhad mawr o ymweld â Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, gan fynychu gweithdai ar wenyn a chael cyfle i weld cychod gwenyn yn agos.

Plannwyd hadau a bylbiau sy'n addas ar gyfer gwenyn, a rhoddwyd hadau i rieni fynd â hwy adref.

Mae'r plant wedi bod yn lledaenu'r neges am yr hyn a ddysgwyd, ac wedi ymweld ag ysgolion lleol yn ogystal â gwneud cyflwyniad yn siambrau Cyngor y Dref.

OGL © Hawlfraint y Goron 2020 WG40090